# Datganiad Tâl a Gwobrwyo 2025 Tai Wales & West 2025

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio dull gweithredu TWW o ran y ffordd yr ydym yn talu ac yn gwobrwyo ein gweithlu ac mae'n nodi manylion ynghylch nifer y staff sydd wedi cael elfennau amrywiol dros y 12 mis diwethaf. Adroddir y datganiad i'r Bwrdd bob blwyddyn, ac yn dilyn hyn, yn ysbryd gweithredu agored a thryloyw, bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan TWW.

Mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025, yn unol â blwyddyn ariannol TWW, ac eithrio'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, y mae mandad Llywodraeth y DU yn nodi bod yn rhaid ei gyfrifo ar 5 Ebrill 2025.

1. <u>Diben a nod y datganiad</u>

Bwriad y datganiad yw cynnig gwybodaeth ynghylch y polisi tâl a gwobrwyo er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch o ran y ffordd yr ydym yn gwobrwyo ein staff am y rolau a gyflawnir.

2. <u>Egwyddorion Talu</u>

Rydym wedi ymrwymo i drefniadau tâl a gwobrwyo tryloyw a theg sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n golygu y gellir recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymhelliant i ddarparu lefel uchel o wasanaeth ar draws y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Seiliwyd ein dull gweithredu tuag at ddâl ar yr egwyddorion canlynol:

- Cefnogi Cyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree fel cyflogwr achrededig
- Gweithredu agored a thryloyw
- Tâl cyfartal
- Fforddiadwyedd a gwerth am arian

3. <u>Cwmpas</u>

Mae'r datganiad tâl yn disgrifio'r trefniadau tâl a gwobrwyo sy'n berthnasol i'r holl staff. Cyflogeion uwch yw'r Tîm Arwain Uwch (sy'n cynnwys Prif Weithredwr y Grŵp, rolau Cyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr).

Y cyflogeion y telir y symiau isaf iddynt yw'r swyddi hynny sy'n cyd-fynd â Chyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree.

4. <u>Y cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch tâl</u>

Y cyfrifoldeb dros benderfyniadau ynghylch tâl Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo trefniadau tâl, gan gynnwys y strwythur tâl (bandiau TWW), unrhyw ddyfarniadau 'costau byw' a'r penderfyniad i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree achrededig.

Mae'n nod gan y Bwrdd i dalu cyfraddau canolrifol y farchnad, heb unrhyw daliadau bonws na thâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad.

5. Strwythur tâl

Cynhelir adolygiad tâl yn flynyddol i ddod i rym o 1 Ionawr; mae hyn yn cynnwys adolygu'r tâl yn yr holl fandiau tâl a chyflogau spot. Yn ddieithriad, helir adolygiadau tâl interim yn unol â grymoedd y farchnad. Gallai'r adolygiad arwain at ddyfarniad 'costau byw' canrannol. Y Bwrdd sy'n gwneud yr holl benderfyniadau am gyflogau.

Mae'n strwythur tâl yn cynnwys:

- Rolau sy'n cyd-fynd â Chyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree, a gyhoeddir ym mis Tachwedd bob blwyddyn fel arfer. Mae TWW yn gweithredu'r gyfradd, a bydd yn dod i rym o'r mis Ionawr dilynol.
- Amrediad o fandiau (B – K) sy'n cynnwys hyd at 5 pwynt cynyddrannol; mae hyn yn cynnig strwythur clir a thryloyw sy'n dangos cyfraddau talu cynyddol dros gyfnod, sef 5 mlynedd fel arfer.
- Mae swyddi Band B hyd at bwynt cynyddrannol 4 wedi dod i ben gan fod cyfradd cyflog fesul awr y cyflog byw wedi rhagori ar y cyfraddau cyflog is.

Caiff rolau o fewn y bandiau eu neilltuo i swyddi trwy ddefnyddio cynllun gwerthuso swyddi sy'n pennu gwerth priodol gwahanol swyddi o fewn y Gymdeithas. Mae'r broses yn cynnwys system sgorio lle y caiff pwyntiau eu neilltuo yn erbyn gwahanol elfennau; defnyddir yr un elfennau ar gyfer pob swydd. Mae'r cynllun gwerthuso swyddi ar gael i'r holl staff ei weld ar ein mewnrwyd.

Fel arfer, gwneir penodiadau newydd i'r pwynt cyntaf ar y strwythur bandiau (cynyddran 1) oni bai bod rheswm cadarn dros wneud eithriad, er enghraifft, roedd un o gyflogeion presennol TWW ar frig y band oddi tano yn union cyn y penodiad (oni bai bod sancsiwn perfformiad neu ddisgyblu yn nodi fel arall) ac nid oes fawr o wahaniaeth rhwng y ddau swm.

Yn ogystal, a phan fo hynny'n rhesymol, a chan ystyried cyfraddau'r farchnad, byddwn yn ymdrechu i sicrhau na fydd unigolion yn profi gostyngiad o ran eu cyflog pan fyddant yn ymuno â ni.

Mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond yn unol â disgresiwn Prif Swyddog Gweithredol y Grŵp (e.e., rhesymau sy'n ymwneud â chadw staff/marchnad gystadleuol), gellir dyfarnu datblygiad tâl carlam i gyflogeion trwy'r graddfeydd cynyddrannol.

Ar ôl eu penodi, bydd cyflogau'n destun codiad cynyddrannol bob blwyddyn (hyd at gynyddran 5) oni bai bod sancsiwn disgyblu/perfformiad yn nodi fel arall.

- Cynigir cyflogau spot ar gyfer yr holl swyddi Cyfarwyddwyr a swyddi arweinwyr uwch enwebedig.

Gellir cynnal gweithgarwch profi'r farchnad (gan ddefnyddio ymgynghorwyr neu ddata allanol) yn ôl yr angen. Yn ystod y blynyddoedd interim, gweithredir unrhyw ddyfarniad 'costau byw' cyffredinol y bydd y Bwrdd yn cytuno arno.

- Cyflogau spot ar gyfer Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp.

Gellir cynnal gweithgarwch profi'r farchnad (gan ddefnyddio ymgynghorwyr neu ddata allanol) yn ôl yr angen. Trafodir y wybodaeth gan Bwyllgor Tâl, sy'n gwneud argymhelliad i'r Bwrdd wedi hyn. Bydd y Bwrdd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
Ni fydd taliadau bonws a thâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad yn berthnasol i'n strwythur tâl a gwobrwyo; bydd staff yn cael pecyn tâl a buddion cystadleuol ac, yn gyfnewid am hyn, disgwylir i bawb wneud gwaith da.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys y strwythur tâl a'r cyfraddau priodol.

Mae Atodiad II yn cynnwys niferoedd y staff ar bob lefel.

6. Amodau a thelerau gwasanaeth cyflogaeth

Mae gan y rhan fwyaf o gyflogeion amodau a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys tâl a bennir gan y Gymdeithas.

Yn unol â rheoliadau TUPE, pan fo hynny’n berthnasol, gall staff ddewis cadw at delerau ac amodau gwasanaeth eu cyflogwr blaenorol.

Gall rhai gweithdrefnau rheoli newid a ysgogir gan y busnes arwain at ddiogelu tâl rhai staff hefyd.

7. Tâl Cyfartal

Mae Proffil Rôl pob swydd ar draws y sefydliad yn cynnwys cymal ynghylch Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Penodir staff yn ôl eu haeddiant a beth bynnag fo eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Gweithredir y broses gwerthuso swyddi i bob swydd o fewn y cyfraddau cynyddrannol.

Cynhelir gweithgarwch er mwyn profi'r farchnad allanol i gyfrannu at gyflogau spot ar gyfer yr holl swyddi arwain uwch nad ydynt o fewn strwythur y cyfraddau cynyddrannol.

Pennir tâl y Cyflog Byw Gwirioneddol gan Sefydliad Cyflog Byw Joseph Rowntree ac fe'i cyhoeddir ym mis Tachwedd bob blwyddyn fel arfer.

8. <u>Pensiynau</u>

**Cyfraniadau pensiwn**

Mae'r sefydliad yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Pensiynau ac mae'n gweithredu Cynllun Pensiwn Grŵp Tai Wales & West (CPGTWW) o'i mewn. Mae CPGTWW yn denu cyfraniad cyffredinol a allai amrywio rhwng y gwahanol gynlluniau yn y Cynllun a/neu rhwng cyflogwr a chyflogai.

**Cynlluniau â Buddion wedi'u Diffinio :**

- Mae cynllun Cyflog Terfynol 1/60 wedi cau i aelodau newydd.
- Mae cynllun GOFAL 1/60 ar agor i'r staff hynny sy'n aelodau presennol o'r Cynllun Cyflog Terfynol yn unig; gall y staff hyn wneud cais i ymuno â'r cynllun hwn fel dewis amgen i'r cynllun Cyflog Terfynol.
- Mae cynllun GOFAL 1/80 ar agor i'r holl gyflogeion a gellir ei ddefnyddio fel dewis amgen i'r cynllun DC (isod).

**Cynllun â Chyfraniadau wedi'u Diffinio:**

- Hwn yw ein cynllun enwebedig ar gyfer awto-gofrestru ar gynllun pensiwn.

Mae'r sefydliad yn gweithredu trefniant aberthu cyflog pensiwn sy'n sicrhau arbedion Yswiriant Gwladol fel arfer. Mae cyfanswm yr arian a delir i'r cynllun pensiwn yn aros yr un fath ac ni effeithir ar y buddion o'r cynllun pensiwn.

| Cynllun SHPS | Nifer y cyflogeion fesul cynllun* |
|---|---|
| Cyflog Terfynol 1/60 rhan Buddion wedi'u Diffinio (ar gau i aelodau newydd) | 34 |
| GOFAL 1/60 rhan Buddion wedi'u Diffinio (ar gau i staff ac eithrio'r rhai sydd yn y cynllun Cyflog Terfynol uchod ar hyn o bryd) | 98 |
| GOFAL 1/80 Buddion wedi'u Diffinio – ar agor i bob cyflogai | 79 |

| | |
|---|---|
| Cyfraniadau wedi'u Diffinio | 251 |
| Nifer y cyflogeion nad ydynt yn rhan o gynllun pensiwn | 16 |
| Cyfanswm | 478 |

9. Treuliau cynhaliaeth a theithio busnes

Ad-dalir staff am gostau sy'n codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau angenrheidiol. Telir taliadau milltiroedd gan y sefydliad yn unol â lwfansau wedi'u cymeradwyo gan CThEF, ac i'r graddau ag y bo hynny'n bosibl, nid ydynt yn arwain at dreth ychwanegol neu rwymedigaethau Yswiriant Gwladol.

Mae'r sefydliad yn cytuno ar gyfraddau corfforaethol gyda nifer o westai, ac mae'n rhaid defnyddio'r rhain oni bai y ceir amgylchiadau arbennig; mae'r trefniadau hyn yn cynnwys costau llety. Mae trefniadau mwy hyblyg yn bodoli ar gyfer bwyd a diodydd, lle y caniateir i staff ddewis (hyd at lwfans) ble i fwyta. Rhaid cael derbynebau ar gyfer pob hawliad.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff a wnaeth hawliadau teithio a/neu gynhaliaeth dros y 12 mis diwethaf | 343 |

10. Taliadau a lwfansau ychwanegol

Gan ddibynnu ar ofynion busnes, gallai staff fod yn gymwys i gael y taliadau ychwanegol canlynol yn ystod eu cyflogaeth:

- **Goramser :** Mae gweithio goramser yn drefniant gwirfoddol ac yn cael ei awdurdodi ymlaen llaw. Os bydd gofyn gweithio goramser, telir cyfradd yr awr safonol am amser a gaiff ei weithio hyd at 37 awr yr wythnos ac amser a hanner am oriau dros 37 awr yr wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff a gafodd daliadau goramser yn ystod y 12 mis diwethaf | 16 |

- **Cymwysterau:** Mae'r sefydliad yn cefnogi unigolion sy'n dymuno astudio am gymhwyster a bydd yn talu rhwng 50% a 100% o'r ffioedd gan gynnwys cofrestru/aelodaeth myfyrwyr (os bodlonir y meini prawf).

| | |
|---|---|
| Nifer y staff a gynorthwywyd i astudio am gymwysterau dros y 12 mis diwethaf | 11 |

- **Ffioedd proffesiynol:** Byddwn yn talu cost ffioedd tanysgrifio blynyddol ac unrhyw ffioedd ymuno untro, lle y mae aelodaeth o'r corff proffesiynol yn berthnasol ac o fudd i'r unigolyn ac i ni, wrth iddynt gyflawni eu rôl.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff y talwyd ffioedd proffesiynol ar eu cyfer dros y 12 mis diwethaf | 70 |

- **Taliadau marchnad atodol: mae hwn yn berthnasol i swyddi lle y mae data am y farchnad allanol yn arwain at daliad atodol i'r cyflog sylfaenol ar gyfer y**

**rôl.**

Gellir addasu'r taliad atodol i fyny neu i lawr yn unol â chyfraddau'r farchnad.

| | |
|---|---|
| Nifer y rolau y maent wedi sicrhau taliad marchnad atodol yn ystod y 12 mis diwethaf | 5 |

- **Diogelu cyflog:** Pan fo band y swydd a/neu'r enillion arferol mewn rôl a ddilëwŷd yn uwch na'r swydd y caiff aelod o staff ei neilltuo iddi, diogelir y tâl blaenorol am gyfnod nes bydd yr adeg yn dod pan fydd tâl y swydd barhaol newydd yr un fath â neu'n uwch na thâl y rôl blaenorol.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff y diogelir eu cyflog ar hyn o bryd | 10 |

11. Perthynoledd tâl o fewn TWW.

Y tâl isaf o fewn TWW yw cyfradd yr awr Cyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree (nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd ar gontractau hyfforddiant, y mae'r cyfraddau prentisiaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn berthnasol iddynt).

- Y swydd sy'n cael y cyflog uchaf yw rôl y Prif Weithredwr y Grŵp.
- Ar hyn o bryd, 8.14:1 yw'r gymhareb rhwng y swyddi sy'n cael y cyflog uchaf ac isaf
- 4.7:1 yw'r gymhareb rhwng y cyflog cyfartalog ar draws y sefydliad a'r swydd sy'n cael y cyflog uchaf.

12. Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn nodi'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog menywod o'u cymharu ag enillion cyfartalog gwrywod.

Rydym wedi defnyddio methodoleg Adrodd am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y Llywodraeth er mwyn nodi mai ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw 15.5% ac mai'r bwlch canolrifol yw 11.1%.

Mae cyfran y gwrywod a'r benywod ym mhob braced chwartel fel a ganlyn:

| Chwartel | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Is | 26% | 74% |
| Canol isaf | 29.9% | 70.2% |
| Canol uchaf | 37.5% | 62.5% |
| Uchaf | 56.2% | 43.8% |

Nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â thaliadau bonws yn berthnasol i ni.

Seiliwyd y ffigurau ar y data ynghylch cyflogau ar ddyddiad penodedig y Llywodraeth ym mis Ebrill 2025.

Caiff hwn ei gyfrifo o'r newydd bob blwyddyn a'i gyhoeddi yn y ddogfen hon ar wefan TWW.

Bydd TWW yn ymdrechu i waredu'r bwlch cyflog drwy gyfrwng ei ymrwymiad i sicrhau bod prosesau yn dryloyw, a bod staff yn cael eu recriwtio a'u gwobrwyo mewn ffordd deg, beth bynnag fo eu rhyw.

Dadansoddir data AD o hyd er mwyn helpu'r sefydliad i nodi unrhyw rwystrau sy'n atal cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyfrannu at flaenoriaethau gweithredu.

## 13. Pecyn gwobrwyo a chydnabyddiaeth ehangach

Yn ychwanegol i gyflog cyflogai a'r taliadau a nodwyd uchod (gan gynnwys pensiynau), mae'r sefydliad yn cynnig amrediad bellach o fuddion ariannol ac anariannol yn y gweithle, gan gynnwys:

- Talebau gofal plant (cynllun ar gau i unrhyw newydd-ddyfodiaid)
- Yswiriant Salwch Difrifol
- Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion (EAP)
- Trefniadau estynedig sy'n gyfeillgar i deuluoedd e.e., mamolaeth/mabwysiadu/tadolaeth
- Trefniadau gweithio hyblyg
- Amser hyblyg
- Benthyciad caledi
- Gofal Iechyd a Chynllun Arian
- Trefniant gweithio hybrid
- Cyfleoedd dysgu a datblygu
- Yswiriant bywyd (gydag aelodaeth cynllun pensiwn)
- Gwobrau teyrngarwch (gwasanaeth hir)
- Dileu swyddi – taliad estynedig
- Lluniaeth: te/coffi/dŵr wedi'i hidlo am ddim
- Benthyciadau am docynnau tymor (trafnidiaeth)
- Diwrnod Cymunedol y Staff (amser i ffwrdd am dâl er mwyn gwirfoddoli)
- Gŵyl staff (bob blwyddyn)
- Loteri staff
- Benthyciadau teithio cynaliadwy – beiciau / cerbydau gydag allyriadau isel
- Dillad gwaith (ar gyfer rolau dynodedig yn unig)

Yn ogystal, bydd Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol y Grŵp yn manteisio ar lwfans car sy'n werth £7,000 y flwyddyn.

Mae staff yn cael datganiad gwobr ariannol unigol bob blwyddyn, gyda phamffled cyffredinol “Eich Buddion” sy'n amlinellu ac sy'n hyrwyddo ystod ehangach y buddion sydd ar gael.

**Atodiad I**

**Graddfeydd Tâl Ionawr 2025 i Ragfyr 2025**

**Tîm Gweithredol / Cyfarwyddwyr – ystod cyflog spot**

| Ystod y Cyflog (£) | Nifer yn y swydd |
|---|---|
| **180,000-199,999** | 1 |
| **160,000 -179,999** | 0 |
| **140,000 – 159,999** | 3 |
| **120,000 - 139,999** | 1 |
| **100,000 - 119,999** | 2 |
| **80,000 - 99,999** | 7 |

| Cynyddrannau | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Band K** | £65,696 | £67,855 | £70,012 | £72,172 | £74,330 |
| **Band J** | £54,692 | £56,850 | £59,010 | £61,171 | £63,323 |
| **Band I** | £43,899 | £46,055 | £48,214 | £50,374 | £52,534 |
| **Band H** | £39,341 | £40,459 | £41,581 | £42,700 | £43,821 |
| **Band G** | £35,543 | £36,490 | £37,439 | £38,389 | £39,341 |
| **Band F** | £32,091 | £32,953 | £33,815 | £34,679 | £35,543 |
| **Band E** | £29,157 | £29,894 | £30,625 | £31,357 | £32,091 |
| **Band D** | £26,573 | £27,217 | £27,866 | £28,512 | £29,157 |
| **Band C** | £24,499 | £25,015 | £25,537 | £26,054 | £26,573 |
| **Band B** | | | | | £24,499 |

**Cyfraddau cyflog eraill**

- Cyflog Byw Gwirioneddol Joseph Rowntree, £12.60 yr awr (cyflog cyfatebol o £24,243)
- Cyfraddau Prentisiaeth (fel y nodir gan y Llywodraeth)
- Datblygu ein Gweithlu ein Hunain – mae'r sefydliad yn mabwysiadu amrediad o gyfraddau band neu spot ar gyfer hyfforddeiaethau neu gyfleoedd cyflogadwyedd eraill.

**Atodiad II**

| Teitl y Swydd | Nifer yn y swydd |
|---|---|
| Prif Weithredwr y Grŵp | 1 |
| Cyfarwyddwyr Gweithredol | 3 |
| Cyfarwyddwyr | 10 |
| Rheolwyr Ariannol | 2 |
| Band K | 15 |
| Band J | 41 |
| Band I | 40 |
| Band H | 115 |
| Band G | 64 |
| Band F | 29 |
| Band E | 74 |
| Band D | 42 |
| Band C | 3 |
| Band B | 1 |
| Cyflog Byw Gwirioneddol | 38 |
| Datblygu ein Gweithlu ein Hunain | 0 |
| **Cyfanswm** | **478** |